**CYNGOR SIR PENFRO**

**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2011 (AMRYWIAD RHIF 31) 2025**

---

Mae Cyngor Sir Penfro ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 49, 53, 101, 102 a 124 a rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd, darpariaethau Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a holl bwerau galluogi eraill y Ddeddf, ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu yn unol â rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, trwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar y 27ain diwrnod o Hydref 2025 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 (Amrywiad Rhif 31) 2025.

2. Mae Gorchymyn Cyngor Sir Penfro (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Cydgrynhoi) 2011 ("y Gorchymyn Cydgrynhoi"), gan gynnwys yr atodlenni ynddo a'r amrywiadau dilynol, trwy hyn wedi'i amrywio neu ei ddiwygio fel a ganlyn:-

**1) Diwygio Atodlen 2**

**(a) Yn Atodlen 2.1, rhodder:-**

**Hwlffordd**
**Teras Stepney, Prendergast**
Ochr ddwyreiniol – o bwynt 16 metr i'r de o wal dalcen rhif 1 Teras Stepney, i'r de am 12 metr.

**Aberdaugleddau**
**Heol Warwick**
Ochr ogleddol – o ganol Brook Avenue tua'r dwyrain am hyd o 10 metr.

**Arberth**

**Halkon Crescent**

Ochr ogleddol, gorllewinol a deheuol – O ffin rhifau 22/23 Halkon Crescent o amgylch y man troi i bwynt yn union gyferbyn â ffin rhif 22/23 Halkon Crescent.

**(b) Diwygir Atodlen 2.1 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Aberdaugleddau**

**Heol Warwick**, yn lle paragraff sy'n ymwneud â'r ddwy ochr, rhodder:

Y ddwy ochr – o'r gyffordd â Great North Road tua'r gorllewin am hyd o 10 metr.

**(c) Diwygir Atodlen 2.13 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Maenorbŷr**

**Ffordd yr U6338 yn arwain i'r traeth**, yn lle paragraff sy'n ymwneud â'r ochr ddeheuol, rhodder:

b) o ben gorllewinol y cilfannau / lleoedd parcio am bellter o 525 metr i bwynt ger mynedfeydd giât y fferm y tu hwnt i Atlantic View.

**2) Diwygio Atodlen 4**

**(a) Diwygir Atodlen 4.4 i'r gorchymyn fel a ganlyn:-**

**Arberth**

**Stryd Sant Iago,** ochr ogleddol - mae paragraff wedi'i ddileu.

**3) Diwygio Atodlen 6**

**(a) Yn Atodlen 6.1, rhodder:-**

**Ffordd y B4316 o Pentlepoir i Saundersfoot (Llanusyllt)**

Ochr ogleddol

O bwynt 6 metr i'r dwyrain o fynedfa maes parcio'r orsaf drenau tua'r dwyrain am 25 metr.

4) <u>Diwygio Atodlen 9</u>

<u>(a) Caiff Atodlen 9.1 ei diwygio fel a ganlyn:-</u>

**Johnston**

**9.1.10**

**Parc Cranham**, ochr orllewinol – mae paragraff wedi'i ddileu.


**RHODDWYD** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y 16eg diwrnod hwn o Hydref, Dwy Fil a Phump ar Hugain.

**AT HYN GOSODWYD SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR PENFRO**

ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

12192




Pembrokeshire County Council
Directorate of Transportation & Environment
County Hall
Haverfordwest
SA61 1TP

Proposed no waiting at any time
(Double yellow lines)
Stepney Terrace, Prendergast, Haverfordwest

Scale: Date:

Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Pembrokeshire CC - Licence Number 100023344.

**ParkMap Version 7.6**




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1000 |
| DATE | 10/03/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

Proposed seasonal waiting restrictions
Manorbier

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1500 |
| DATE | 10/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |





Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Warwick Road

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 400 |
| DATE | 22/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

Proposed no waiting at any time (double yellow lines
Halkon Crescent, Narberth

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 500 |
| DATE | 10/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |




**Key to Restriction Types Displayed**

- No waiting at any time
- No waiting 8am-6pm
- Limited waiting 30 mins no return within 30 mins 8am-6pm
- Disabled bay 2 hrs no return within 1 hr

Pembrokeshire County Council
Cygnor Sir Penfro

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

Waiting restriction proposal
Removal of disabled bay outside former library

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 750 |
| DATE | 10/04/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |

**ParkMap Version 7.6**




Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

© Crown copyright. All rights reserved
Pembrokeshire County Council
Licence No. 100023344 2025

| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1540 |
| DATE | 10/03/2025 |
| DRAWING No. | |
| DRAWN BY | |